

Setiau digidol 3D: Rheoli ac archifo

Li Sou: Ymchwilydd Doethurol, [Prifysgol Bradford](#), a Chris Casswell: Pennaeth Gwaith Maes, [DigVentures](#)

Nod y gweithdy hwn yw dwyn ynghyd unrhyw un sydd â diddordeb neu'n cymryd rhan mewn creu, prosesu, dadansoddi ac archifo setiau data digidol sy'n deillio o sganio laser neu ffotogrametreg er mwyn trafod sut orau i'w rheoli a'u harchifo. Drwy fformat bord gron, byddwn yn ystyried ac yn dysgu oddi wrth y dulliau presennol a ddefnyddir gan wahanol sefydliadau, gyda'r nod o ddatblygu safonau gwell ar gyfer gwneud hyn yn y sector treftadaeth ac archaeoleg.



Bydd y gweithdy'n dechrau gyda chyflwyniadau byr gan y sefydliadau sy'n creu ac yn rheoli data cwmwl pwyntiau 3D:

- Adam Stanford, [Aerial-Cam Ltd](#)
- Shoned Jones, [Allen Archaeology](#)
- Kieron Niven, [Archaeology Data Service](#)
- Anthony Corns, Prosiect CHERISH a [The Discovery Programme](#)
- Chris Casswell, [DigVentures](#)
- Paul Bryan, [Historic England](#)
- Thomas Sparrow, [Prifysgol Bradford](#)

Ar ôl trafod eu systemau presennol a materion y mae angen mynd i'r afael â hwy, cawn drafodaeth agored i godi'r prif faterion y mae sefydliadau a defnyddwyr wedi'u hwynebu, ac i ystyried sut y gallwn symud ymlaen a datblygu safonau cymeradwy at y dyfodol. Gobeithiwn y bydd y cyfranogwyr yn dod i ffwrdd o'r sesiwn hon gyda gwell syniad o sut i wella trefnu ac archifo data yn eu gweithleoedd eu hunain, wedi derbyn cyngor y grwpiau sy'n cymryd rhan yn y gweithdy. Efallai mai'r cyfarfod hwn fydd y cyntaf o lawer, a gobeithiwn ffurfio gweithgor i barhau'r drafodaeth yn y dyfodol.